# Adroddiad Blynyddol

Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council

# Annual Report

2024-2025

## Gwaith y Cyngor 2024 – 25 / Council Work 2024 - 25

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanllwchaearn. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Diolch yn fawr i'r Clerc am ei gwaith drwy'r flwyddyn ac i'm cyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth.

Cynghorydd Silyn Roberts
(Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn 2024 / 2025)

I am pleased to present the annual report of Llanllwchaearn Community Council. It provides an overview of the Council's work during the period from 1 April 2024 to 31 March 2025. Thank you to the Clerk for her work during the year and to my fellow councillors for their support.

Councillor Silyn Roberts
(Chair of Llanllwchaearn Community Council 2024/ 2025)

# Amdanom ni – About us

| Aelodau o'r Cyngor<br><br>Members of the Council | Tymor y Swydd<br><br>Term of Service | Tymor fel Cadeirydd & Is-gadeirydd<br><br>Term as Chair & Vice Chair |
|---|---|---|
| Cynghorydd / Councillor Silyn Roberts | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Cadeirydd Mai 2024 - Mai 2025 |
| Cynghorydd / Councillor Matthew Vaux | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Is-gadeirydd Mai 2024 - Mai 2025 |
| Cynghorydd / Councillor Gareth Ioan | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd / Councillor Gill Hearne | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd / Councillor Meleri Richards | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd / Councillor Mel Jones | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd / Councillor Euros Lloyd | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 - Medi 2024 | |

**Strwythur y Cyngor**

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol uchod.

Nid yw’r cynghorwyr yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol. Am y rhan helaethaf o’r flwyddyn mae saith cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanllwchaearn. Cânt eu hethol bob pedair blynedd, neu eu cyfethol rhwng etholiadau.

Cyflogir Clerc rhan-amser i ymdrin â threfniadau cyfarfodydd, â threfniadau gohebiaeth ac â threfniadaeth ariannol.

Mae lle i unarddeg o gynghorwyr ar y Cyngor. Mae 809 o etholwyr yn byw yn ardal y Cyngor (2024).

**Sut mae'r Cyngor yn gweithio?**

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn trwy godi praesept, sef yr arian a godir gan y Cyngor yn fisol oddi wrth drigolion y gymuned, a gesglir fel rhan o'r Dreth Cyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

**Beth yw praesept y Cyngor?**

Cyfanswm archebiant 2024-2025 oedd £11,566.80. Mae’r praesept yn cael ei godi i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned sydd yn cynnwys gwariant ar dorri gwair, cynnal a chadw diffibriliwr ac i gyfrannu i sefydliadau lleol.

**Cyfarfod Blynyddol**

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth gyfreithiol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

## The structure of the Council

A list of your local councilors is provided above.

The councillors do not represent any political party. For most of the year there are seven councillors on Llanllwchaearn Community Council. They are elected every four years or co-opted between elections.
A part-time Clerk is employed to deal with meeting arrangements, correspondence arrangements and financial arrangements.
There is room for eleven councillors on the Council. There are 809 electors living in the Council's area (2024).

## How does the Council work?

Any work done by the Council will be implemented following decisions made in open meetings. Any work is paid for with public money that the Council receives by raising a precept, which is the money that the Council collects monthly from the residents of the community, which is collected as part of the Council Tax determined by Ceredigion County Council.

## What is the Council's precept?

The total precept for 2024-2025 was £11,566.80. A precept is raised to fund the Community Council's responsibilities which include expenditure on mowing the grass, maintenance of defibrillators and to contribute to local organizations.

## Annual Meeting

The annual meeting is a legal obligation as set out in the Local Government Act 1972. The annual meeting must be held in May. The Council decides on the date. The first item on the agenda is to elect the Chairman of the Community Council for the following twelve months.

## Ymgynghoriadau ac Arolygiadau
Ymatebwyd i sawl ymgynghoriad ac arolygiad pwysig gan gynnwys Arolwg Ffiniau Cymunedol.

## Ceisiadau Cynllunio
Caiff Ceisiadau Cynllunio eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio yn unol â hynny.

## Rhaglen Hyfforddiant
Mae cynllun hyfforddiant ar waith i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cyngor. Mae'r Cynghorwyr wedi dechrau dilyn rhaglen hyfforddiant ar gynllunio, wedi'i ddarparu gan Gymorth Cynllunio.
Cafwyd sesiwn Hyfforddiant Cod Ymddygiad gan Wasanaeth Democrataidd a Safonau Cyngor Sir Ceredigion.

## Consultations and Inspections
Responses have been made to several important consultations and inspections including a Community Boundary Survey

## Planning Applications
Planning Applications will be considered at each meeting, and comments will be sent to the Planning Service accordingly.

## Training Plan
A training plan is in place to ensure that all councillors are fully aware of the processes and responsibilities of members and the Council. Councillors have commenced a training programme on planning, which has been delivered by Planning Support.
A Code of Conduct Training session was provided by Ceredigion County Council's Democratic and Standards Service.

**Rhoddion Ariannol 2024-2025**
**Financial Contributions 2024-2025**

- Cross in Bloom - £180.00
- Ysgol Bro Sion Cwilt School - £712.60
- 4 Llan - £500.00
- Neuadd Caerwedros Hall - £400.00

Cais am Cymorth Ariannol 2025-26
Request for financial assistance 2025-26

https://d.docs.live.net/0c1bb7c3da443bb1/Documents/Ceisiadau%20am%20Cymorth%20Ariannol/25-26/Cais%20am%20Cymorth%20Ariannol%202025-26.pdf

## Llwyddiannau 2024-25

Prif lwyddiant y Cyngor (y tu hwnt i'w waith arferol) oedd adeiladu mynedfa addas i'r anabl yng nghysgodfan fysiau Pentre'r Bryn.

Mae'r gwaith o wella'r amgylchedd leol yn mynd rhagddo er mwyn gwneud yr ardal yn un sy'n addas, yn ddiogel ac yn bleserus i bawb sy'n byw yma, mae hyn yn cynnwys cafnau blodau mewn rhai o'r pentrefi.

## Achievements 2024-25

*The Council's main achievement (beyond its normal duties) was building work on the Pentre'r Bryn bus shelter for the disabled to have access to it.*

*The work of improving the local environment is ongoing to make the area suitable, safe and enjoyable for all who live here, this includes planters in some of the villages.*

**Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol 2025-26**

- Codi hysbysfwrdd newydd ym Maen-y-groes
- Creu partneriaeth gyda'r Cyngor Sir o ran gofal am lwybrau troed lleol
- Parhau i harddu'r fro drwy weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau lleol e.e. y cafnau blodau sydd i'w gweld mewn rhai o'r pentrefi erbyn hyn
- Plannu coed a chloddiau er mwyn annog bioamrywiaeth
- Gofalu am yr ardal drwy ymgyrchoedd codi sbwriel

**Future Priorities 2025-26**

- Erecting a new notice board in Maen-y-groes
- Creating a partnership with the County Council in terms of care for local footpaths
- Continue to beautify the area by working in partnership with local organizations e.g. the planters that can now be seen in some of the villages
- Plant trees and hedges to encourage biodiversity
- Caring for the local environment through litter picking campaigns

## Mynychu Cyngor Cymuned / Cysylltwch â Ni

Mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus. Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Mae modd mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol. Os hoffech fynychu cyfarfod, cysylltwch â'r Clerc os gwelwch yn dda.

Llanllwchaearn Community Council is eager to see members of the public attending Council meetings.

Except for confidential items, all business is kept public. All public agenda papers are published online 3 working days before the meeting.

Meetings can be attended face to face or virtually. If you would like to attend a meeting, please contact the Clerk.

Cysylltwch â ni drwy / Contact us via:

Mrs Sioned Davies (Clerc)
Fronhaul, 13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion,
SA45 9SR

Gwefan/Website: - Hafan

Gwybodaeth Cynghorwyr/Councillor Information - Cynghorwyr